Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Greenfields

Mae Greenfields yn ysgol ddydd arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli yn un o faestrefi Casnewydd. Caretech Ltd sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 9 ac 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae bron pob un o'r disgyblion yn byw yng nghartrefi plant y cwmni.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru newid perthnasol i gofrestriad yr ysgol i ymestyn yr ystod oedran derbyn i gynnwys addysgu disgyblion o naw mlwydd oed. Ers yr ymweliad hwnnw, mae nifer y disgyblion wedi cynyddu o 6 i 15. Mae llawer o'r disgyblion o oedran ysgol uwchradd. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, ac mae gan lawer ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon a mwyafrif y cynorthwywyr addysgu yn newydd i'r ysgol ac fe'u penodwyd ar gyfer mis Medi 2019.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2015 ac yn adrodd i bennaeth addysg a chyfarwyddwr gwasanaeth y sefydliad. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2017. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf ym mis Mehefin 2018.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar a chadarnhaol. Mae adnoddau da mewn ystafelloedd dosbarth, ac mae arddangosfeydd ar y waliau yn dathlu cyflawniadau a dysgu'r disgyblion.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus â nhw. Mae hyn yn helpu creu diwylliant o barch, ymddiriedaeth a goddefgarwch ar y ddwy ochr.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm hyblyg, eang a chytbwys sy'n gweddu'n dda i anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion.

Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau cymunedol, ac mae grwpiau sy'n ymweld yn rhoi gwybodaeth a phrofiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion ynglŷn â chadw'n ddiogel yn y gymuned ac ymddwyn yn gyfrifol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Nid yw rôl staff gofal mewn cynorthwyo disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol yn ddigon clir.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei chynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn.

Er bod gan yr ysgol systemau ar waith i werthuso'i gwaith, mae'r rhain yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn ddigon da.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Egluro rolau a chyfrifoldebau staff cymorth gofal**

**A2 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer medrau yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu medrau pob un o'r disgyblion**

**A3 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer atgyfnerthu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella prydlondeb a phresenoldeb**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau ar gyfer cofnodi ac olrhain presenoldeb a phrydlondeb yr holl ddisgyblion. Er mis Medi, mae presenoldeb cyffredinol bron pob un o'r disgyblion wedi gwella. Mae presenoldeb cyfartalog llawer o ddisgyblion uwchlaw 90%.

Mae'r ysgol yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei disgyblion a'i staff. Mae'n ofynnol i bob un o'r disgyblion fod yn yr ysgol erbyn 9.00am. Mae staff yn goruchwylio symudiadau disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol yn effeithiol. O ganlyniad i'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol hyn rhwng staff a disgyblion, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi yn brydlon.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ddifyr ac wedi'i addasu'n dda i fodloni diddordebau a dyheadau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan yng nghynllun Dug Caeredin, yn mynychu sesiynau chwaraeon a ffitrwydd, ac yn dysgu medrau coginio gartref. Mae hyn yn cyfrannu at wella a chynnal lefelau presenoldeb.

**Argymhelliad 2: Cryfhau trefniadau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas wrth fodloni'r argymhelliad hwn.

Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio cyflwyno'r fframweithiau medrau. Ceir cyfeiriadau priodol at fedrau ym mhob cynllun gwaith. Mae hyn yn ddatblygiad cymharol newydd yn yr ysgol, ac mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar wella medrau disgyblion.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu ymhellach trwy rannu a hyrwyddo arfer orau yn ehangach**

Gan fod y rhan fwyaf o athrawon yn newydd yn eu swydd, cyfyngedig fu cynnydd cyffredinol wrth fodloni'r argymhelliad hwn.

Mae'r pennaeth wedi elwa ar ddatblygu perthnasoedd cryfach ag ysgol asesu a derbyn y sefydliad. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o anghenion disgyblion, ac wedi cryfhau'r drefn o rannu gwybodaeth.

Mae staff yn dechrau elwa ar hyfforddiant perthnasol. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno darpariaeth gwella'r cwricwlwm yn effeithiol, a dealltwriaeth staff o ofynion asesu cyrff arholi.

Defnyddir cyfarfodydd staff wythnosol yn effeithiol. Mae athrawon yn rhannu arfer effeithiol a strategaethau defnyddiol i wella profiad dysgu pob un o'r disgyblion.

**Argymhelliad 4: Atgyfnerthu a datblygu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ymhellach**

Mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith sicrhau ansawdd deg pwynt i werthuso'i gwaith. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod systemau i fodloni gofynion y fframwaith yn effeithiol. Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y pennaeth a'r pennaeth addysg yn sicrhau bod gwaith yr ysgol yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ansawdd yr addysgu, deilliannau disgyblion a lles staff.

Mae'r pennaeth yn darparu adroddiadau addysgiadol i'r pennaeth addysg a chyfarwyddwr gwasanaeth. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar argymhellion ymweliadau blaenorol, ac yn fwy ehangach ar y datblygiadau sydd ar waith yn yr ysgol.

Mae arolwg rhanddeiliaid diweddar a lenwyd gan ddisgyblion, rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn cofnodi barn yn ddefnyddiol iawn o ran gwaith yr ysgol, gan gynnwys yr hyn y mae angen ei wella. Mae hon yn nodwedd bwysig a datblygol o waith yr ysgol. Mae'r rhesymeg ar gyfer y blaenoriaethau gwella niferus yn glir. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu blaenoriaethu'n ddigon da.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2020